# Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

# Cyllid grant

# 2023-2024

# Trosolwg

Mae gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu’r pŵer i ddyfarnu grantiau lleihau troseddu ac anhrefn fel yr amlinellir yn adran 9 o Ddeddf Diwygio’r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011.

Gellir rhoi'r grantiau hyn i unrhyw unigolyn i sicrhau neu gyfrannu at sicrhau gostyngiad mewn troseddu ac anhrefn yn ardal yr heddlu. Gall y grant fod yn ddarostyngedig i unrhyw amodau y mae'r comisiynydd yn eu hystyried yn briodol.

Rhaid i gyllid grant gydymffurfio â'r amodau a nodir yn y Cyd-fframwaith Llywodraethu Corfforaethol. Mae hyn yn nodi'r egwyddorion, y strwythurau a'r prosesau sy’n llywodraethu Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu.

Mae’r Strategaeth Gomisiynu, yn amlinellu blaenoriaethau ac egwyddorion allweddol gweithgareddau comisiynu. Mae hyn yn cynnwys cyfeiriad at ddyfarnu grantiau fel un o’r llwybrau cyflawni.

Mae'r broses i sicrhau cydymffurfiaeth yn cynnwys y canlynol:

- **Ffurflen cais am gyllid:** ceisio sicrwydd gan ymgeiswyr bod eu gweithgareddau'n cyd-fynd â'r Cynllun Heddlu a Throseddu, gan roi hyder bod strwythurau llywodraethu busnes ac ariannol priodol wedi'u hymgorffori i reoli cyllid grant yn effeithiol.
- **Sgorio a chrynodeb cynigion:** matrics sgorio i asesu ceisiadau a chydymffurfiaeth â gofynion Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu.
- **Gwneud penderfyniadau:** mae penderfyniadau i gynnig cyllid yn cael eu gwneud gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu gyda chymorth y Tîm Gweithredol. Caiff cofnod penderfyniadau ei ddrafftio, yn amlinellu'r manylion ac yn cael ei gadarnhau gan y Tîm Gweithredol cyn ei gyhoeddi ar wefan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu.

Mae gan y comisiynydd sawl cyllideb y gellir eu defnyddio i ariannu gweithgareddau sy'n cefnogi blaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throseddu. Mae gan rai o'r rhain ddibenion penodol fel a ganlyn:

| Ffynhonnell incwm | Diben | Swm a fuddsoddwyd yn 2023-2024 |
|---|---|---|
| Cronfa’r Comisiynydd | Crëwyd y gronfa hon i ddarparu cronfa i'r comisiynydd tymor 3 i gefnogi mentrau i ategu'r Cynllun Heddlu a Throseddu newydd. | £223,115.72 |
| Cronfa Wrth Gefn Gwerthu Eiddo a Ganfuwyd | Mae’r gronfa hon yn ailddosbarthu arian a geir o werthu eiddo wedi’i ddarganfod ac fe’i defnyddir i gefnogi/rhoi i elusennau lleol. | £6,995.00 |

| | | |
|---|---|---|
| Cronfa Deddf Enillion Troseddau | Daw'r gronfa hon o gronfeydd sydd wedi'u dyrannu i ardal Dyfed-Powys oherwydd gorchmynion atafaelu sy'n deillio o enillion troseddau. Yna defnyddir y cronfeydd wrth gefn hyn i gefnogi gweithgareddau gweithredol sy'n cynorthwyo i ddod â throseddwyr gerbron y llys. | £92,913.94 |
| Cronfa Wrth Gefn ar gyfer Fforffediadau | Mae'r gronfa hon yn ailddosbarthu arian a atafaelwyd o dan adran 27 o'r Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau ac yn dilyn fforffediad yn y llys a fydd yn cael ei ddefnyddio i ariannu gweithrediadau sy'n targedu troseddau sy'n gysylltiedig â chyffuriau a chamddefnyddio cyffuriau. | £44,790.88 |
| Cronfa Wrth Gefn Cynllun Ailhyfforddi Gyrwyr | Mae'r gronfa wrth gefn hon yn cael ei chadw'n benodol i gefnogi gweithgareddau mewn perthynas â mentrau diogelwch ffyrdd. Bydd cyfleoedd pellach yn cael eu harchwilio i sicrhau bod y cronfeydd wrth gefn hyn yn cael eu defnyddio i'r effaith orau ar gyfer cymunedau Dyfed-Powys. | £48,834.56 |
| Cronfa Wrth Gefn Ymyriad Cyffuriau | Bydd y gronfa hon yn cael ei defnyddio i gefnogi profion cyffuriau. Cronfa wrth gefn achlysurol yw hon a fydd yn disbyddu yn ystod 2024/2025. | £33,819.50 |
| | **Cyfanswm:** | **£450,469.60** |

Mae'r cyllid a ddyfarnwyd wedi'i ddosbarthu i'r meysydd canlynol:

| **Lleoliad** | **Rhanbarthol** | **Sir Benfro** | **Sir Gaerfyrddin** | **Ceredigion** | **Powys** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer** | 13 | 1 | 6 | 4 | 3 |
| **Gwerth** | £366,453.88 | £500.00 | £55,566.72 | £17,450.00 | £10,499.00 |
| **Cyfran** | 81.3% | 0.1% | 12.3% | 3.9% | 2.3% |

Mae'r gweithgareddau rhanbarthol o fudd i holl gymunedau Dyfed-Powys.

Er nad yw rhai ardaloedd awdurdodau lleol wedi gwneud cais am gyllid sylweddol yn uniongyrchol gan y comisiynydd nac wedi'i dderbyn, efallai eu bod wedi derbyn cyllid gan y Swyddfa Gartref a/neu gyllid grant Llywodraeth Cymru a weinyddir gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu.

# Dyfarniadau cyllid

## Cronfa’r Comisiynydd

| | |
|---|---|
| **Prosiect** | Rhaglen Premier League Kicks Clwb Pêl-droed Dinas Abertawe |
| **Gwerth** | £100,000.00 |
| **Lleoliad** | Ledled ardal yr heddlu |

Yn dilyn cynllun peilot llwyddiannus a gyflwynwyd gan Sefydliad Clwb Pêl-droed Dinas Abertawe yn Seaside, Llanelli, a Doc Penfro yn ystod tymor 2020/2021, cytunodd y comisiynydd i ddarparu cyllid pellach dros gyfnod o dair blynedd i gefnogi ardal Dyfed-Powys gyfan.

Nod y rhaglen yw defnyddio pêl-droed a chwaraeon yn gyffredinol i ysbrydoli plant a dod â chymunedau at ei gilydd. Mae'r prosiect hefyd yn cynnwys hyfforddiant sgiliau bywyd a chyfleoedd gwirfoddoli.

Nododd y sefydliad bum ardal â chyfraddau uchel o amddifadedd ac anfantais economaidd-gymdeithasol i bobl ifanc, gan gynnig hyfforddiant wythnosol heb unrhyw gost i'r cyfranogwyr. Roedd y rhain wedi'u lleoli yn y canlynol: Caerfyrddin, Llanelli, Doc Penfro, Aberystwyth, a'r Drenewydd.

Yn ystod 2023/2024, daeth Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu â’r Angel Cyllyll i Aberystwyth i godi ymwybyddiaeth o droseddau cyllyll a’r effaith y gall ei chael.

Gwahoddwyd cyfranogwyr sesiynau Aberystwyth i fod yn rhan o'r seremoni agoriadol a chawsant weithdy addysgol ar beryglon troseddau cyllyll.





Enwyd Ashlee Charles, gwirfoddolwr Sefydliad Clwb Pêl-droed Dinas Abertawe, yn hyrwyddwr cymunedol yng Ngwobrau Plant Cymru 2023. Roedd Ashlee yn wreiddiol yn un o gyfranogwr Premier League Kicks yn Nyfed Powys cyn symud ymlaen i rôl wirfoddoli.

Yn ystod 2023, cymerodd Ashlee gyfrifoldeb am gyflwyno'r grwpiau i ferched yn unig a chynyddodd nifer y gweithgareddau oedd ar gael ar ei liwt ei hun.

Mae gwaith Ashlee gyda'r sefydliad yn gwella bywydau'r cyfranogwyr. Mae rhieni'n sôn faint mae hi wedi rhoi hwb i’r plant, gan roi toreth o hyder a hunan-barch iddyn nhw.

| **Prosiect** | Canolfan Entrepreneuriaeth Affricanaidd - Llwybrau i Ffyniant |
|---|---|
| **Gwerth** | £26,446.72 |
| **Lleoliad** | Sir Gaerfyrddin |

Darparwyd cyllid i'r Ganolfan Entrepreneuriaeth Affricanaidd i gefnogi sefydlu canolfan yn Llanelli.

Darparodd prosiect Llwybrau i Ffyniant wasanaethau sy'n briodol i oedran, yn sensitif i hil a diwylliant ar gyfer cymunedau ag anghenion amlochrog a chymhleth ac sydd wedi cael eu hymylu'n hanesyddol.

Cefnogodd y prosiect bobl ifanc, mudwyr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches i gyflawni eu potensial llawn a chyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas. Cyflawnwyd y canlyniadau canlynol:




*"Mae'r cyllid a ddarparwyd wedi bod yn allweddol i'n galluogi i ehangu o fewn ardal Sir Gaerfyrddin, gan ganolbwyntio'n benodol ar Lanelli—rhanbarth o amddifadedd sy'n gartref i gyfran fawr o'n grwpiau defnyddwyr gwasanaeth targed. Ein prif amcan erbyn diwedd y cyfnod ariannu oedd sefydlu presenoldeb cryf yn y gymuned hon, gan ddod yn sefydliad annatod sy'n cynorthwyo unigolion i wireddu eu potensial llawn. Rydym yn falch o allu adrodd ein bod wedi llwyddo i gyflawni ein nodau, drwy greu a chryfhau partneriaethau ag amryw o sefydliadau/rhanddeiliaid lleol."*

- Dros 6,000 o ymgysylltiadau ar-lein trwy eu llwyfannau digidol
- Mae 189 o unigolion wedi defnyddio'r gwasanaeth.
- Mae 21 o bobl ifanc wedi cael cymorth i gael mynediad at hyfforddiant sgiliau, gan gynnwys hyfforddiant diogelwch a chyfleoedd mewn swyddi gwyrdd.
- Yn dilyn sesiynau ymgysylltu wyneb yn wyneb, nododd yr holl fynychwyr eu bod yn teimlo'n fwy cadarnhaol ynglŷn â rhyngweithio â'r heddlu a mynegwyd awydd am gyfleoedd ymgysylltu mwy diogel.
- Cododd Swyddogion Cymorth Cyflogaeth ymwybyddiaeth o'r system cyfiawnder troseddol ar draws yr holl weithdai, gan arwain at 161 o fuddiolwyr yn nodi dealltwriaeth well o'r system a sut mae'n gweithredu.
- Llwyddodd 16 o ffoaduriaid i gael swyddi drwy gymorth Llwybrau i Ffyniant – roedd hyn yn cynnwys cymorth yn y broses ymgeisio a pharatoi ar gyfer cyfweliadau.
- Cafodd 36 o gyfranogwyr gymorth gyda'r nod o wella eu sgiliau digidol a'u mynediad.

Cafwyd yr adborth canlynol:

| | |
|---|---|
| ***Cyfranogwr*** | ***Xiomara*** |

*"Ar fy rhan i, a fy nheulu, hoffwn ddiolch ichi am eich cymorth a'r amser a roddoch i'n helpu a'n harwain ni yn y broses hon rydym wedi ei byw fel ffoaduriaid. Mae wedi bod yn gymorth mawr gan ein bod wedi teimlo'n ddryslyd iawn ar adegau ac rydych wedi rhoi arweiniad gwych i ni."*

| | |
|---|---|
| ***Gwirfoddolwr*** | ***Tia*** |

*"Diolch am gredu ynof fi, a rhoi'r cyfle i mi. Rwy wedi fy ysbrydoli gan y gwaith, ac rwy'n edrych ymlaen at barhau i gyfrannu, a hefyd dysgu cymaint â phosibl a datblygu ym maes cynllunio digwyddiadau, cyfiawnder cymdeithasol ac amgylcheddol, ac eirioli dros hawliau pawb."*

| | |
|---|---|
| **Prosiect** | Grymuso corfforol |
| **Gwerth** | £22,400.00 |
| **Lleoliad** | Sir Gaerfyrddin |

Mae Physical Empowerment CIC yn darparu dosbarthiadau hunanamddiffyn, meithrin gwydnwch a magu hyder i ddioddefwyr a goroeswyr cam-drin domestig.

Yn dilyn prosiect peilot llwyddiannus yn 2022-2023, aeth Physical Empowerment CIC at Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu am ragor o gyllid i barhau â'r gwaith pwysig hwn.

Mae'r cyllid yn uniongyrchol wedi galluogi recriwtio staff ychwanegol i gyflwyno dosbarthiadau o fewn ardal Dyfed-Powys. Roedd hyn yn caniatáu i gyrsiau gael eu cyflwyno yn Llanelli gan arwain at gynnydd yn nifer y gwirfoddolwyr. Cefnogodd y cyllid hefyd gostau teithio'r mynychwyr i oresgyn rhwystrau ariannol personol.

Mae sesiynau dilynol misol yn parhau ar gyfer y menywod sydd wedi cwblhau cyrsiau, ac mae gwirfoddolwr wrthi'n hyfforddi i fod yn hyfforddwr cymwysedig.

Mae llwybrau atgyfeirio gyda darparwyr gwasanaethau cam-drin domestig eraill wedi'u sefydlu ac mae trefniadau cydweithio yn y dyfodol yn cael eu hystyried.



Mae'r adborth canlynol wedi dod i law:

> "Rydw i wedi mwynhau'r cwrs Physical Empowerment yn fawr iawn. Yr hyn rydw i wedi teimlo sydd wedi bod yn hynod ddefnyddiol yw gallu siarad â merched sy'n fy neall i!"

> "Cwrs anhygoel. Byddwn i'n argymell yn gryf i unrhyw un sydd wedi bod mewn perthynas gamdriniol ymgymryd â'r cwrs. Anhygoel. Diolch yn fawr 😊 "

> "Mwynheais i'n fawr gwrdd â menywod eraill sydd wedi cael yr un profiadau a theimlo eu bod yn fy neall i."

| **Prosiect** | Sefydliad Jac Lewis |
|---|---|
| **Gwerth** | £20,000.00 |
| **Lleoliad** | Sir Gaerfyrddin |

Sefydlwyd elusen Sefydliad Jac Lewis yn 2019 i ddarparu gwasanaeth cwnsela i deuluoedd sydd wedi colli rhywun oherwydd hunanladdiad. Mae'r sefydliad wedi datblygu i fod yn ddarparwr gwasanaeth profiadol ac mae'n rhanddeiliad allweddol yng nghyflwyniad cyfarfodydd ymateb cyflym Llywodraeth Cymru ledled Cymru.

Mae Heddlu Dyfed-Powys ac awdurdodau lleol yn bartneriaid cyflenwi wrth ddarparu atgyfeiriadau i'r sefydliad ar gyfer y rheini sydd wedi colli rhywun oherwydd hunanladdiad. Mae'r sefydliad yn darparu cymorth o fewn 48 awr i'r atgyfeiriad er mwyn lleihau'r perygl o niwed.

Darparwyd cyllid i'r sefydliad gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2023/2024 i ddarparu'r gwasanaeth atgyfeirio ymateb cyflym. Oherwydd lefelau annisgwyl a digyffelyb o atgyfeiriadau o ddigwyddiadau marwolaeth sydyn o fewn ardal Dyfed-Powys, daeth y cyllid hwn i ben cyn diwedd y flwyddyn gyllidebol.

Cafodd Sefydliad Jac Lewis gyfraniad ariannu untro gan y comisiynydd am weddill 2023/2024 i barhau â'r gwasanaeth atgyfeirio hwn a darparu cymorth angenrheidiol iawn i gymunedau Dyfed-Powys.

Yn ystod y cyfnod ariannu, mynychodd y sefydliad wyth cyfarfod ymateb cyflym a gynhaliwyd o fewn 72 awr i farwolaeth yr unigolyn.

Cefnogwyd 30 o unigolion gan Sefydliad Jac Lewis yn syth ar ôl i'r cyfarfodydd ymateb cyflym ddigwydd, gan gynnwys teulu, ffrindiau, cydweithwyr ac ati.

O ganlyniad i'r cyllid hwn, cafwyd yr adborth canlynol:

> "Daeth yr alwad yn annisgwyl, fel yr oedd rhywun yn fy nhywys; roedd yn braf gallu siarad â rhywun a oedd yn deall. Roedd y cwnsela yn anhygoel, fe wnaeth wahaniaeth go iawn."

"Byddwn i wedi bod mewn lle tywyll iawn, yn amharod i gymryd meddyginiaethau. Gwnaeth fy helpu i ymdopi â'r sefyllfa llethol. Fyddwn i ddim wedi gallu ymdopi hebddo."

"Gwnaeth bob gwahaniaeth y gellir ei ddychmygu, mae wedi caniatáu i mi oroesi, mae wedi helpu'r teulu cyfan, mae wedi ein hachub ni i gyd."

| | |
|---|---|
| **Prosiect** | Cyflawnwyr Cam-drin Domestig – cyfraniad rhanbarthol |
| **Gwerth** | £19,850.00 |
| **Lleoliad** | Ledled ardal yr heddlu |

Cysylltodd bwrdd rhanbarthol trais yn erbyn menywod, merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol â'r comisiynydd am gyfraniad tuag at y rhaglen cyflawnwyr ranbarthol. Mae'r comisiynydd wedi cyfrannu cyllid at y bartneriaeth ers 2021/2022. Mae'r buddsoddiad hwn wedi parhau'n flynyddol hyd yn hyn.

Mae'r cyd-fuddsoddiad yn sicrhau bod y bartneriaeth yn cyflawni rhaglen ymyrraeth gyson, hygyrch ac o safon i droseddwyr sydd yr un mor hygyrch ym mhob ardal yn Nyfed-Powys. Yn unol â gwaith y bartneriaeth i wella trefniadau comisiynu gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, cymeradwyodd y bwrdd diogelu fodel dosraniad rhanbarthol i sicrhau cyfraniadau priodol gan bob partner.

Mae partneriaid strategol allweddol i gyd wedi cyfrannu at ariannu'r prosiect gyda'r comisiynydd yn cyfrannu 10% o'r gost.

| | |
|---|---|
| **Prosiect** | Area 43 - Depot |
| **Gwerth** | £9,500.00 |
| **Lleoliad** | Ceredigion |

Caffi dan arweiniad pobl ifanc yw'r Depot y mae Area 43 yn ei weithredu fel safle saff yng Ngheredigion. Mae'n cynnig gwasanaeth agored a chynhwysol i bobl 14–25 oed sydd mewn perygl o ddod yn ddioddefwyr ac yn droseddwyr.

Mae Depot yn grymuso ac yn cefnogi hawl pobl ifanc i gael mynediad at wasanaethau cyngor, cwnsela a chymorth lleol, o safon, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, i wella eu cyfleoedd bywyd am ddyfodol gwell.

Yn ddiweddar, mae Depot wedi ymgymryd â gweithgaredd adeiladu helaeth i greu gofod mwy o faint a mwy effeithiol. Gofynnwyd am gyllid i wneud y lle yn fwy croesawgar i ddefnyddwyr. Dyfarnodd y comisiynydd gyllid tuag at ddodrefnu ac addurno'r gofod sydd newydd ei adnewyddu.

Mae cofnodion ymwelwyr wedi dangos cynnydd yn nifer y bobl sy'n mynychu ers cyflwyno'r adnoddau ychwanegol, gan gynyddu o gyfartaledd misol o 691 o ymweliadau'r mis i 795.



Roedd y cyllid hwn yn caniatáu i'r Depot brynu offer i gyflwyno sesiynau dawns/ioga a hyfforddiant cylchol.

Mae gofod gweithgareddau yno a chanddo fwrdd pŵl, bwrdd tenis bwrdd a bwrdd dartiau.

Dim ond mewn tafarndai lleol oedd gan bobl ifanc fynediad at fwrdd pŵl - mae'r adnodd hwn yn golygu bod y Depot yn dargyfeirio pobl ifanc o'r amgylchedd hwn.

Roedd pobl ifanc yn awyddus i fod yn rhan o ddatblygu'r gofod hwn a threuliasant amser yn dysgu sut i adeiladu'r dodrefn yn ogystal â defnyddio'r adnoddau a'r gofod gweithgareddau.

**Adborth gan ymwelwyr â Depot:**



*"Mae'r Depot yn lle gwych i gyfarfod, fe wnaethon ni chwarae dartiau heddiw fel grŵp."*
Gwen

*"Pan fydd bywyd yn rhoi lemonau i chi, dewch i'r Depot i wneud lemonêd. Dw i wrth fy modd gyda'r offer newydd."*
Elliot

*"Des i chwilio am wefrwyr a sylweddoli bod y pethau bwrdd pŵl/tenis bwrdd yma ac aros."*
Ethan

**Tysteb gan fynychwyr rheolaidd:**

"mae'r gweithdai iach yn golygu ein bod ni'n cael rhoi cynnig ar ioga a dawns a hyfforddi am ddim, a gweld a ydyn ni'n ei fwynhau"

"Mae gwybod bod pŵl a thenis bwrdd yma, yn rhywbeth i edrych ymlaen ato, a bydda i'n dod i mewn yn amlach, des i mewn yn benodol pan welais i'r lle ar Instagram"

| | |
|---|---|
| **Prosiect** | Prosiect Tai Rheoli Troseddwyr yn Integredig |
| **Gwerth** | £7,000.00 |
| **Lleoliad** | Ceredigion |

Yn ystod 2020/2021, ariannodd y comisiynydd brosiect a oedd yn darparu llety dros dro i gleientiaid rheoli troseddwyr yn integredig tra bod atebion llety eraill, mwy addas a hirdymor, yn cael eu canfod. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd ar gyfer adsefydlu a llwybrau cadarnhaol i gleientiaid.

Mae'r prosiect wedi adrodd am ganlyniadau llwyddiannus i'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol.

Mae trefniadau llywodraethu llym rhwng Heddlu Dyfed-Powys, awdurdodau lleol, y Weinyddiaeth Gyfiawnder (Gwasanaeth Prawf) a darparwyr tai yn sicrhau bod prosesau dethol yn deg ac yn rhesymol a bod ymddygiad cleientiaid yn cael ei fonitro'n briodol a'i reoli'n effeithiol trwy fyrddau partneriaeth.

Derbyniodd prosiect Ceredigion gyllid pellach o £7,000.00 i barhau â'r gweithgaredd hwn.

Mae llwyddiant y prosiect yng Ngheredigion wedi arwain at ddiddordeb ar draws ardaloedd heddluoedd eraill Cymru ac mae cynllun i'w gyflwyno ar draws ardal Dyfed-Powys.




Roedd Tîm Rheoli Troseddwyr yn Integredig Heddlu Dyfed-Powys yn gyd-enillwyr y categori Troseddu a Chyfiawnder yng Ngwobrau Cymunedau Mwy Diogel cyntaf Cymru am eu gwaith rhagorol wrth gyflawni'r prosiect hwn.


| | |
|---|---|
| **Prosiect** | Grŵp Diogelwch Digwyddiadau Llanfair-ym-Muallt (Sioe Frenhinol Cymru) |
| **Gwerth** | £5,000.00 |
| **Lleoliad** | Powys |

Lansiodd Grŵp Diogelwch Digwyddiadau Llanfair-ym-Muallt yr ymgyrch ddiogelwch "Cael Hwyl, Cymryd Gofal a Chadw'n Ddiogel" ar gyfer Sioe Frenhinol Cymru 2023. Fe wnaeth yr ymgyrch wella'r gweithgaredd a gynhaliwyd yn 2022, gan ganolbwyntio ar annog ymddygiadau priodol, yfed yn gyfrifol, camddefnyddio sylweddau, a gofalu am ffrindiau.

Mae Grŵp Diogelwch Digwyddiadau Llanfair-ym-Muallt yn mynd i'r afael â ffactorau sy'n achosi niwed, gan gynnwys trais, camddefnyddio sylweddau ac ymddygiadau gwrthgymdeithasol.


Darparwyd cyllid ar gyfer costau cynhyrchu deunyddiau a arddangoswyd mewn mannau cyhoeddus ac ymgyrch cyfryngau cymdeithasol a dargedwyd at bobl ifanc.










Cafodd yr ymgyrch Cael Hwyl, Cymryd Gofal a Chadw’n Ddiogel dderbyniad da, gyda'r arolwg ar ôl y digwyddiad yn nodi bod 68% o'r ymatebwyr yn gwybod am yr ymgyrch, a 62.5% o bobl yn nodi ei bod wedi cael effaith ar eu hymddygiad.

| | |
|---|---|
| **Prosiect** | Ail-ddeffro |
| **Gwerth** | £4,999.00 |
| **Lleoliad** | Powys |

Dechreuwyd Ail-ddeffro ym 1997 gan bobl oedd ag aelodau o'r teulu â phroblemau iechyd meddwl. Ers 2014, mae Ail-ddeffro wedi canolbwyntio ar y grŵp oedran 16-25, lle mae llawer yn profi heriau wrth drawsnewid o blentyndod i fod yn oedolyn.

Camfanteisiwyd ar rai o’r cleientiaid, neu maen nhw mewn perygl o gael eu camfanteisio, neu'n ymwneud â gangiau llinellau cyffuriau. Mae eraill wedi dioddef cam-drin domestig neu drais rhywiol, wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau troseddol, a chanddynt hanes o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod, yn defnyddio cyffuriau ac alcohol, neu â thueddiadau treisgar.

Darparodd y comisiynydd gyllid i helpu i gynorthwyo i ddarparu prosiect Cymorth Adfer Un-i-Un Ail-ddeffro. Y diben yw darparu cymorth iechyd meddwl gan ddefnyddio model adferiad yn seiliedig ar ymyrryd yn gynnar, gan gynnwys tai, perthnasoedd, gwaith, hyfforddiant a chyllid. Roedd yr ymarferwyr yn eirioli ar ran cleientiaid i gyflogwyr a darparwyr addysg i addasu yn ôl yr angen. Mae hyn wedi cael derbyniad da, yn enwedig gan gleientiaid niwroamrywiol.

Case Study: Alisha (not her real name) a young woman of 23 was referred to Rekindle by Primary Mental Health team. She is one of the new cohort of clients and came to Rekindle in May 2023. Alisha presented with difficulties navigating the world after returning to live in Newtown. She struggled with her mental and physical health and disclosed that she had misused drugs and alcohol to try and level out. She self-harmed regularly and struggles with personal care as acts of self–harm were taking place in the shower. She was unemployed and was consumed by the burden of mounting debt. Alisha’s initial goals was to find long term employment, access support and be understood. She wanted an accurate diagnosis of her problems and to improve her self-understanding and awareness. Effectively homeless on arrival she was given support to access local authority housing, however she was placed in unsuitable accommodation where her vulnerability was rapidly exploited by other tenants, to her great distress. A referral to POBL (specialist housing support organisation) was made and the council referred Alisha to The Money saviour, a debt counselling service. Alisha now lives in a secure independent rented property. She is working towards a diagnosis of her mental health problems and has started to create a plan to resolve her debt problems permanently. Alisha has a job and is working late two nights a week in order to be able to come to Rekindle during the day for continuing support. She feels more confident, heard and understood and continues to regularly attend sessions with Rekindle.

*“I wouldn’t be where I am now without Rekindle. A friend of mine was in need of help and I told them to come straight here, as you actually help. I would be very lost without your help.”*

*“As someone who visits Rekindle weekly, I can hands down say it’s been the best support I have ever had. From sorting out help for money, housing, appointments, helping source food when I had none, and supporting me with my mental health and everything in between. I couldn’t advise a better place to go to than Rekindle, and I cannot thank them enough”.*

*"Ers cael cymorth gan Ail-ddeffro mae fy iechyd meddwl wedi gwella'n fawr, rwy'n gwybod sut i ymdopi'n well â straen ac rwy'n gallu gwneud hynny ac rwy'n gwybod sut i dreulio amser gyda fy nhad. Rwy'n gwybod y gallai'r lleisiau bach fod yno ond gallaf eu hanwybyddu. Alla i ddim dewis pa un peth sydd wedi fy helpu fwyaf oherwydd mae'r cyfan wedi bod o gymorth mawr, does dim terfynau amser ac mae fy nheimladau wedi'u dilysu."*

| | |
|---|---|
| **Prosiect** | Stallion Boxing |
| **Gwerth** | £4,700.00 |
| **Lleoliad** | Sir Gaerfyrddin |

Cynigiodd Stallion Boxing y rhaglen 'Box Clever' - rhaglen ymyrryd yn gynnar ac atal. Mae Stallion Boxing yn cydnabod pa mor fregus y mae pobl ifanc dan anfantais ac mae wedi datblygu rhaglen i helpu i wella cyfleoedd/dewisiadau bywyd cadarnhaol.

Darparodd y comisiynydd gyllid i gefnogi cyflawniad y rhaglen hon.

Cynorthwyodd y prosiect y grŵp demograffig 11-16 oed sydd eisoes yn hysbys o fewn y system cyfiawnder troseddol neu sydd mewn perygl o ymwneud â gweithgaredd troseddol.

Galluogodd y prosiect fyfyrwyr i ddeall am fyw bywyd sy'n seiliedig ar egwyddorion a gwerthoedd moesol cryf ac i ddeall manteision ymarfer corff/bwyta'n iach i wella iechyd a lles.

Canolbwyntiodd y rhaglen ar bobl ifanc nad ydynt yn ymgysylltu'n llawn neu sy'n ei chael hi'n anodd ymgysylltu ag addysg; gan gynorthwyo pobl ifanc sy'n agored i niwed a/neu sydd mewn perygl o adael system addysg a chyflogaeth ac felly mewn perygl o gael eu camfanteisio neu eu cynnwys mewn gweithgaredd troseddol.

Cyflwynodd y prosiect raglen chwe wythnos ar gyfer cyfanswm o bedair carfan (24 sesiwn). Roedd pob carfan yn cynnwys 10 o unigolion a ymgymerodd ag un sesiwn yr wythnos, am 10 wythnos.

| | |
|---|---|
| **Prosiect** | Dyfeisiau Tracio Asedau |
| **Gwerth** | £2,520.00 |
| **Lleoliad** | Sir Gaerfyrddin |

Dyfarnwyd cyllid i Dolen Teifi ar gyfer prynu dyfeisiau tracio asedau ar gyfer fflyd o feiciau cerbydau trydan a fydd ar gael i oedolion ifanc sy'n cyflawni troseddau lefel isel yn Llanelli. Galluogodd hyn Dolen Teifi i weithredu fflyd fach o feiciau trydan yn ddiogel yn Llanelli.

Hysbysir pob defnyddiwr bod y beiciau wedi'u gosod â dyfeisiau olrhain System Leoli Fyd-eang GPS a gallant gael mynediad at y feddalwedd i fonitro eu teithiau.



Mae'r dyfeisiau tracio asedau yn monitro lleoliadau'r beiciau trydan rhag ofn na fydd y beiciau'n cael eu dychwelyd a/neu os cânt eu defnyddio'n amhriodol.

Mae'r dyfeisiau olrhain System Leoli Fyd-eang wedi cofnodi 739 o deithiau unigol sy'n cwmpasu 2,956 o filltiroedd. Ni chofnodwyd unrhyw ladradau na rhybuddion brys.

| | |
|---|---|
| **Prosiect** | Diwrnod Agored Gorsaf Aberteifi |
| **Gwerth** | £700.00 |
| **Lleoliad** | Ceredigion |

Cynigiodd y comisiynydd rodd i gefnogi darparu lluniaeth yn Niwrnod Agored Gorsaf Heddlu Aberteifi. Dyma'r Diwrnod Agored cyhoeddus cyntaf i gael ei gynnal yng Ngorsaf Heddlu Aberteifi ers iddi agor yn 2010.

Rhannodd swyddogion a staff heddlu Aberteifi y gweithgareddau cadarnhaol y maen nhw’n eu cynnal i gadw trigolion Ceredigion yn ddiogel. Tynnodd y digwyddiad sylw hefyd at dimau arbenigol: yr Uned Forol, Uned Gefnogaeth yr Heddlu, y Tîm Dronau a’r Uned Ymateb Arfog.

Hyrwyddodd y digwyddiad recriwtio swyddogion yr heddlu gan gynnwys cwnstabliaid arbennig, staff yr heddlu a gwirfoddolwyr.

Daeth nifer dda i’r digwyddiad a rhoddodd gyfle cadarnhaol i’r cymunedau lleol ryngweithio â’r heddlu, gan fagu hyder y cyhoedd.

## Cronfa Cynllun Ailhyfforddi Gyrwyr

| | |
|---|---|
| **Prosiect** | Ffitrwydd i yrru |
| **Gwerth** | £2,263.50 |
| **Lleoliad** | Ledled ardal yr heddlu |

Yn ystod 2020, cysylltodd yr heddlu a Gwasanaeth Asesu Symudedd a Gyrru Cymru (WMDAS) â'r Comisiynydd i ofyn am gymorth ariannol ar gyfer eu cyrsiau ffitrwydd i yrru.

Mae'r heddlu'n cyfeirio troseddwyr gyrru at WMDAS i gael asesiadau. Cyfrannodd y comisiynydd gyllid i gefnogi costau teithio er mwyn caniatáu i aseswyr gynnal asesiadau yng nghymunedau gwledig Dyfed-Powys.

Cymeradwywyd cyfraniad o £11,370.50 yn ystod 2022/2023. Cafwyd yr anfoneb derfynol yn haf 2023 a chafodd ei chasglu o fewn blwyddyn gyllideb 2023/2024.

| | |
|---|---|
| **Prosiect** | BRAKE – Eiriolwr Annibynnol i Ddioddefwyr Ffyrdd |
| **Gwerth** | £45,446.06 |
| **Lleoliad** | Ledled ardal yr heddlu |

Cymeradwyodd y comisiynydd gyllid ar gyfer cynllun peilot 12 mis o wasanaeth Eiriolwr Annibynnol ar gyfer Dioddefwyr Ffyrdd pwrpasol. Mae'r rôl hon yn darparu cymorth ymarferol ac emosiynol i gynorthwyo teuluoedd i lywio canlyniadau digwyddiadau angheuol ar y ffordd yn ardal Dyfed-Powys.

Galluogodd y cyllid y darparwr gwasanaeth Brake, i gyflogi Eiriolwr Annibynnol i Ddioddefwyr y Ffordd pwrpasol, yn gweithio gyda theuluoedd sydd wedi colli rhywun oherwydd marwolaethau ar y ffyrdd.

Nid llinell gymorth yw'r ddarpariaeth gofal hon – mae'n ofal a reolir fesul achos cyhyd ag sydd ei angen cyn y gellir rhoi gorau iddo'n ddiogel. Darperir gofal drwy neilltuo gweithiwr achos cymwys i deulu, gan helpu i ymdopi â materion ymarferol uniongyrchol gan gynnwys cyllid a threfniadau angladd hyd at gynorthwyo plant i gael cwnsela arbenigol.

Tystiolaeth adborth cleientiaid bod cymorth yn fuddiol ac yn rhoi cysur i gleientiaid:

> "Diolch i chi am fod yn weithiwr achos i mi - rydych chi'n gwrando ac yn ymateb yn dda. Mae'n anhygoel eich bod chi'n fy nghynorthwyo."

> "Rwy'n teimlo ei bod yn fraint siarad â chi fel fy ngweithiwr achos. Mae'n gysur siarad â chi."

“Braf cael siarad â thi gan nad ydw i eisiau bod yn faich ar y teulu”

“Rwy’n gwerthfawrogi’r cymorth rydych chi’n ei rhoi i mi fel fy ngweithiwr achos yn fawr iawn. Mae'n fy helpu i siarad â chi gan ei fod yn caniatáu i mi grynhoi fy nheimladau gan fod hyn yn rhoi pethau mewn persbectif i mi.”

Dywedodd Jami Blythe, Rheolwr Datblygu yn Brake:

*“Diolch i gyllid gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys, gall Brake ymestyn gweithrediad Gwasanaeth Cenedlaethol Dioddefwyr Ffyrdd i’r ardal leol hon.*

*Bydd y cyllid yn helpu dioddefwyr damweiniau ffyrdd yn ardal Dyfed-Powys i ymdopi â'r sioc, y cythrwfl a'r dinistr y mae damweiniau ffyrdd yn eu hachosi i deuluoedd.*

*Bydd yr Eiriolwr Annibynnol ar gyfer Dioddefwyr Ffyrdd yn gweithio gyda theuluoedd lleol i ddarparu'r cymorth hanfodol sydd ei angen arnynt. Rydym yn hynod ddiolchgar i fod yn rhan o ymrwymiad y comisiynydd i gynorthwyo anghenion dioddefwyr damweiniau ffyrdd.”*

| | |
|---|---|
| **Prosiect** | Ymgyrch y Nadolig GanBwyll |
| **Gwerth** | £1,125.00 |
| **Lleoliad** | Ledled ardal yr heddlu |

Cafodd GanBwyll – Partneriaeth Lleihau Anafiadau Ffyrdd Cymru gyllid i gynorthwyo gyda’u Hymgyrch Gyrru dan Ddylanwad Alcohol a Chyffuriau dros y Nadolig. Rhannwyd y gost yn gyfartal rhwng pedair Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Cymru a phartneriaeth GanBwyll.

Mae gyrru dan ddylanwad alcohol a chyffuriau yn un o bum prif achos anafiadau ar y ffyrdd. Cododd yr ymgyrch hon ymwybyddiaeth o'r peryglon sy'n gysylltiedig â gyrru dan ddylanwad alcohol.

Cyflwynwyd yr ymgyrch drwy gymysgedd o hysbysebion bws, hysbysebion fan digidol, erthygl nodwedd ar-lein, a negeseuon cyfryngau cymdeithasol.

Gan mai ardaloedd Heddlu Gogledd Cymru a Heddlu Dyfed-Powys oedd yn cael y lleiaf o fudd o'r llwybrau bysiau, cawsant flaenoriaeth ar gyfer yr hysbysebion fan digidol.



Nododd data gwrthdrawiadau ardaloedd â'r risg uchaf o alcohol a/neu gyffuriau. Cynlluniwyd llwybrau o'r Trallwng i Abergwaun, gan stopio yng Ngheinewydd ac Aberteifi. Dechreuodd llwybr arall yn y Trallwng, gan stopio yn y Drenewydd, y Groes, Trefyclo, a Llanfair-ym-Muallt. Cyflwynodd hyn y neges i 227 o filltiroedd o ffyrdd Dyfed-Powys.

## Cronfa Wrth Gefn Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau

| | |
|---|---|
| **Prosiect** | Profion cyffuriau wrth ymyl y ffordd |
| **Gwerth** | £33,819.50 |
| **Lleoliad** | Ledled ardal yr heddlu |

Mae Adran Plismona’r Ffyrdd wedi gweld cynnydd mewn troseddau gyrru dan ddylanwad cyffuriau ers 2019 oherwydd mesurau ‘stopio ac archwilio’ rhagweithiol.

Gwneir y canfyddiad cychwynnol ar ochr y ffordd gan ddefnyddio dull sgrinio cadach cyffuriau. Os bydd darlleniad positif yn cael ei ganfod, byddai angen sampl gwaed tocsicoleg ar yrwyr o fewn uned y ddalfa.

Cytunodd y comisiynydd i gyfrannu at gost citiau profion Gyrru ar Gyffuriau.

Mae'r cyllid hwn yn deillio o gyllideb wrth gefn nad yw'n cael ei hailgyflenwi. Bydd y trefniant ariannu hwn yn dod i ben yn 2024/2025 pan fydd y gyllideb wedi'i gwario'n llawn. Bydd Heddlu Dyfed-Powys yn ariannu'r pecynnau profi cyffuriau o 2024/2025.

Dywedodd yr Uwch-arolygydd Dros Dro Shaun Bowen:

*“Mae citiau cadachau cyffuriau yn offerynnau hanfodol yn y frwydr yn erbyn gyrru ar gyffuriau. Maent yn galluogi swyddogion i nodi presenoldeb sylweddau anghyfreithlon ar ochr y ffordd yn gyflym ac yn gywir, gan ddarparu canlyniadau ar unwaith sy'n cynorthwyo camau gorfodi cyflym.*

*Drwy roi adnoddau’r dechnoleg hon i’n swyddogion, rydym yn gwella eu gallu i ganfod gyrwyr sydd â nam ar eu gallu, gwella diogelwch ar y ffyrdd, a chryfhau ein hymrwymiad i gadw cymunedau'n ddiogel.*

*Nid yn unig y mae'r pecynnau hyn yn cynyddu effeithlonrwydd plismona rheng flaen ond maent hefyd yn gweithredu fel ataliad gweladwy i'r rhai sy'n ystyried gyrru dan ddylanwad cyffuriau.*

## Cronfa Deddf Enillion Troseddau

| | |
|---|---|
| **Prosiect** | Ymchwilydd Ariannol (ymrwymiad 100%) |
| **Gwerth** | £45,883.86 |
| **Lleoliad** | Ledled ardal yr heddlu |

| | |
|---|---|
| **Prosiect** | Swyddog Brysbennu Twyll (ymrwymiad o 50%) |
| **Gwerth** | £23,514.85 |
| **Lleoliad** | Ledled ardal yr heddlu |

| | |
|---|---|
| **Prosiect** | Swyddog Diogelu (ymrwymiad o 50%) |
| **Gwerth** | £23,515.23 |
| **Lleoliad** | Ledled ardal yr heddlu |

Mae'r comisiynydd wedi cyfrannu'n flaenorol at gostau cyflog Ymchwilydd Ariannol, Swyddog Diogelu a Swyddog Brysbennu Twyll, i gyd o fewn Tîm Troseddau Economaidd Heddlu Dyfed-Powys. Mae'r cyllid hwn yn llwyddiannus, gan ganiatáu mwy o bwyslais ar ddioddefwyr troseddau economaidd, gan ddarparu cyngor a chymorth arbenigol.

Adrodd am Dwyll

Gwnaed cyfanswm o 3,328 o adroddiadau i Action Fraud o ardal Dyfed-Powys yn ystod 2023-2024.

Cafodd 1,663 o bobl gyngor, arweiniad a chymorth gan y Swyddog Brysbennu Twyll, a roddodd wybod i Action Fraud ar ran y dioddefwr. Adroddwyd 1,665 achos yn uniongyrchol i Action Fraud.

Cyfanswm y colledion ariannol a ddioddefwyd gan bob dioddefwr twyll oedd £20,086,465.

Ymgyrch Signature

Mae ymgyrch Signature yn nodi ac yn cefnogi dioddefwyr o dwyll sy'n agored i niwed, gan ddarparu gwasanaeth i'w hamddiffyn a'u diogelu'n well rhag dioddef aml-droseddau yn eu herbyn.

Mae'r tabl hwn yn dangos nifer y dioddefwyr a atgyfeiriwyd i Ymgyrch Signature. Mae'r anghydraddoldeb rhwng 2020-2021 a 2023–2024 oherwydd effeithiolrwydd hirdymor y fenter, ynghyd â bod y cyfnod cynharach yn ystod pandemig COVID-19 pan oedd mwy o bobl yn cael eu hynysu gartref ac yn haws eu targedu ar gyfer twyll ar-lein/dros y ffôn.

| | 2020 - 2021 | 2021 - 2022 | 2022 - 2023 | 2023 - 2024 |
|---|---|---|---|---|

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm yr atgyfeiriadau | 407 | 376 | 281 | 285 |

Bu'r Swyddog Diogelu rhag Twyll yn ymgysylltu wyneb yn wyneb â 163 o ddioddefwyr Ymgyrch Signature. Cyfanswm yr arian a gafodd ei ddwyn gan y dioddefwyr hyn oedd £3,305,898.

Cynorthwyodd y Swyddog Diogelu rhag Twyll i ymgysylltu â sefydliadau ariannol ar ran dioddefwyr o dan y fenter Ymgyrch Signature i adennill £727,700.

Y Protocol Bancio

Mae'r Protocol Bancio yn gynllun cenedlaethol rhwng yr heddlu a'r sector ariannol. Mae'n nodi cwsmeriaid banc sydd yn y broses o fod yn ddioddefwyr, ac yn eu cyfeirio at Ymgyrch Signature.

Ymatebodd Heddlu Dyfed-Powys i 94 o ddigwyddiadau Protocol Bancio. O ganlyniad, llwyddodd y Swyddog Diogelu rhag Twyll a Heddlu Dyfed-Powys i atal colli £424,986.

Twyll Rhamant

Mae twyll rhamant yn cyflwyno'r lefelau uchaf o fygythiad, niwed a risg i ddioddefwyr oherwydd y tactegau a ddefnyddir gan droseddwyr i weithredu'n gymdeithasol ac ysglyfaethu ar emosiynau a gwendidau dioddefwr i ddwyn arian dros gyfnod parhaus.

Cafodd Heddlu Dyfed-Powys 77 o adroddiadau am dwyll rhamant drwy gydol y flwyddyn, ac o'r rhain cyfeiriwyd 59 i Ymgyrch Signature. Cyfanswm y golled economaidd i'r dioddefwyr hynny a ymunodd ag Ymgyrch Signature oedd £623,000.

## Cronfa Fforffedu

| | |
|---|---|
| **Prosiect** | Offer yr Uned Cymorth Technegol |
| **Gwerth** | £44,790.88 |
| **Lleoliad** | Ledled ardal yr heddlu |

Darparodd y comisiynydd gyllid i gynorthwyo i brynu offer a ddefnyddir i ganfod cyffuriau.

Mae Heddlu Dyfed-Powys yn defnyddio technoleg i gynorthwyo swyddogion gyda'u hymchwiliadau. Bydd yr offer hwn yn ategu gallu'r heddlu i fynd i'r afael â blaenoriaeth allweddol i'r heddlu: Gwneud ein hardal yn rhywle gelyniaethus i'r rheini sy'n delio mewn cyffuriau.

Bydd yr offer hwn yn cefnogi erlyniad gwerthwyr cyffuriau a grwpiau troseddau cyfundrefnol cysylltiedig. Mae'r offer yn cael eu defnyddio'n weithredol ac yn rheolaidd i nodi a sicrhau tystiolaeth o weithrediadau cyffuriau anghyfreithlon.

Mae'r data a gesglir gan yr offer hwn yn cael ei gofnodi'n ddiogel at ddibenion tystiolaethol er mwyn caniatáu cyflwyniad cadarn yn ystod achosion troseddol yn y llys.

## Gwerthu eiddo a ganfuwyd

Cafodd y sefydliadau canlynol rodd elusennol gan y comisiynydd fel cydnabyddiaeth o'u gweithgareddau pwysig o fewn ardal Dyfed-Powys drwy gydol 2023/2024.

| Sefydliad | Gwerth |
|---|---|
| Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru - Pawennau ar Batrôl | £3,745.00 |
| Rhwydwaith Amlddiwylliannol Llanelli | £1,000.00 |
| Digwyddiad Caredigrwydd y Drenewydd | £500.00 |
| Taith Undod yr Heddlu | £500.00 |
| Clwb Achub Bywyd Traeth Poppit | £500.00 |
| Ambiwlans Awyr Cymru | £500.00 |
| Heddlu Dyfed-Powys - Ymgyrch Tinsel | £250.00 |

# Cyllid allanol a gafwyd.

Yn ystod 2023/2024, cafodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ddau gontract cyllid grant gan y Swyddfa Gartref (Strydoedd Saffach a Dyletswydd Trais Difrifol) a grant arall gan Lywodraeth Cymru (CARA).

Mae'r cronfeydd hyn wedi'u cynllunio i gynorthwyo dioddefwyr a/neu atal niwed yng nghymunedau Dyfed-Powys.

## Strydoedd Saffach 5

Sicrhaodd Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys gyllid gwerth bron £800,000 o Gronfa Strydoedd Saffach 5 y Swyddfa Gartref. Dechreuodd y gronfa hon ar 1 Hydref 2023 a bydd yn dod i ben ar 31 Mawrth 2025.

Mae'r mentrau'n mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched, troseddau meddiangar ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae cydweithwyr yn cynnwys awdurdodau lleol a phartneriaid sector arbenigol gan gynnwys sefydliadau cam-drin domestig.

Yn ystod 2023/2024, cyflawnwyd a chwblhawyd y gweithgareddau canlynol:

**Y Ganolfan Menywod a ddarperir gan Ymddiriedolaeth Nelson**

Mae'r cyllid wedi cefnogi datblygiad adeiladu gofod rhywedd-benodol i gefnogi anghenion menywod agored i niwed yn ardal Dyfed-Powys.

Mae'r Ganolfan Menywod yn hafan i fenywod a merched yr effeithiwyd arnynt gan droseddau trais yn erbyn menywod ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Bydd Swyddogion Allgymorth yn y Ganolfan Menywod yn darparu rhaglenni a chynhyrchion ataliol sy'n darparu cymorth cyfannol, ymarferol ac emosiynol i rai o'r menywod mwyaf dan anfantais, sydd wedi'u hymyleiddio, ac wedi'u stigmateiddio yn ein cymunedau.

**Teledu Cylch Cyfyng Aberystwyth yn cael ei ddarparu gan Heddlu Dyfed-Powys**

Mae'r cyllid wedi cefnogi gosod system teledu cylch cyfyng, gan nodi achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol o amgylch Tan y Cae, Rhodfa'r Môr, tiroedd y Castell, Stryd y Bont a'r Ffynnon Haearn yn Aberystwyth.

Drwy ymgysylltu a chydweithio cadarnhaol â'r awdurdod lleol a'r asiantaeth cefnffyrdd hwyluswyd y gwaith o osod y camerâu teledu cylch cyfyng ddiwedd mis Mawrth 2024.

Cyflawnodd y prosiectau canlynol weithgarwch yn ystod 2023/2024 ac maent yn parhau yn ystod 2024/2025:

**Fy Man Diogel a ddarperir gan Gyngor Sir Caerfyrddin**

Mae'r prosiect hwn yn sicrhau bod hawliau dioddefwyr a goroeswyr cam-drin domestig i aros yn ddiogel yn eu cartrefi yn cael eu diogelu. Cyflawnir hyn drwy ddarparu atebion ymarferol sydd â'r nod o wella mesurau diogelwch cartrefi, gan

gynnwys addasiadau, technoleg ac offer. Darparwyd y gwasanaeth gan arbenigwyr a hyfforddwyd i Dystysgrif Lefel 4 mewn Atal Troseddau ar gyfer Ymarferwyr.

Yn ystod 2023/2024, cafodd 22 o bobl wiriad diogelwch cartref a arweiniodd at becyn diogelwch safonol a nodweddion ychwanegol ar gyfer eu heiddo unigol. Rhoddwyd cyngor ar dechnegau diogel i'w defnyddio yn y cartref.

**Cymunedau Cysylltiedig a ddarperir gan Gyngor Sir Penfro**

Mae'r gweithgaredd hwn yn darparu dau linyn o gymorth ac ymgysylltiad cymunedol.

Amnest gwastraff - Mae hyn yn cynnwys cyfres o amnestau gwastraff ar draws ystadau tai yn Sir Benfro, gan arwain at welliannau amgylcheddol tactegol, gweladwy a gostyngiad mewn tipio anghyfreithlon a throseddau amgylcheddol.

Ymgysylltu â'r gymuned - Mae digwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned a gynhelir ar ystadau tai yn Sir Benfro yn cynyddu gwelededd a'r teimlad o ddiogelwch. Mae'r digwyddiad hwn yn cynnwys ystod eang o bartneriaid yn ymgysylltu â thrigolion, gan gynnig cymorth, cyngor a llwybrau atgyfeirio yn ôl yr angen.

Yn ystod 2023/2024 mae bron 500 o gartrefi wedi cael eu cynorthwyo. Mwy na 45 o dunnelli o wastraff gweddilliol a 55 o dunnelli o wastraff ailgylchu wedi'u symud.

**Bystander Plus a ddarperir gan Wasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru; Gwasanaeth Cam-drin Domestig Threshold; Gwasanaeth Cam-drin Domestig Caerfyrddin a Chanolfan Argyfwng Teulu Trefaldwyn**

Fel sefydliadau arbenigol ym maes cam-drin domestig ardal Dyfed-Powys, mae'r grŵp cydweithredol hwn wedi datblygu dull cydlynol o weithgarwch ataliol.

Mae rhaglen Bystander yn cydweithio â chyfranogwyr i fagu hyder i wneud gwahaniaeth cadarnhaol yn eu cymunedau. Mae hyn yn grymuso cyfranogwyr i herio ymddygiad amhriodol yn weithredol mewn modd diogel ac adeiladol.

Denodd y rhaglen ddiddordeb sylweddol gan weithwyr proffesiynol a busnesau, gan ymgysylltu â dros 300 o bobl sydd naill ai wedi derbyn hyfforddiant a/neu wedi hyrwyddo'r fenter yn eu cymunedau.

Mae dros 50 o ddigwyddiadau hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth wedi'u cynnal a 21 o hyrwyddwyr wedi'u recriwtio. Mae cydweithio â Rhuban Gwyn hefyd wedi cyfrannu at fwy o ymwybyddiaeth yn y prosiect.

**Rhaglen Addysg ac Atal Trais yn Erbyn Menywod a Merched a ddarperir gan Heddlu Dyfed-Powys**

Mae'r rhaglen wedi'i chynllunio gan Heddlu Dyfed-Powys fel dull system gyfan o fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched ac fe'i cefnogir gan nifer o bartneriaid cymunedol.

Mae pum llinyn ar wahân i'r rhaglen hon fel a ganlyn:

Ap Cerdded yn Ddiogel / Cadw'n Ddiogel

Mae'r ap Cerdded yn Ddiogel / Cadw'n Ddiogel yn gwella teimladau o ddiogelwch, yn enwedig ar gyfer menywod mewn mannau cyhoeddus ac yn

economi’r nos. Mae'r ap yn cefnogi nodi/osgoi mannau problemus o ran troseddu ac yn cynorthwyo llwybrau diogel gartref.

Hyfforddiant, Cymorth ac Ymyrraeth o fewn Addysg Bellach ac Addysg Uwch

Hyfforddiant/gweithdai i sefydliadau addysg bellach/addysg uwch ac economi’r nos lle mae myfyrwyr yn agored i drais yn erbyn menywod a merched.

Cydweithio â cholegau/prifysgolion lleol i gryfhau cysylltiadau presennol a pharhau i ganolbwyntio ar wella ymwybyddiaeth o drais yn erbyn menywod a chefnogi myfyrwyr.

Cynghreiriaeth Dynion / Diwylliant Dynion Trais yn Erbyn Menywod a Merched

Mae rhaglen hyfforddi dynion wedi’i hanelu at reolwyr cwmnïau mawr ar draws ardal Dyfed-Powys.

Mae rhaglen Cynghreiriaeth Dynion yn cynnwys gweithdai sy'n hyrwyddo gwrywdod cadarnhaol, tarfu ar ddisgwyliadau negyddol a stereoteipiau ac yn grymuso dynion i fod yn well wrth beidio â chadw’n dawel ac yn gynghreiriaid i fenywod a merched.

Crimestoppers

Mae gan ardal Dyfed-Powys boblogaeth wledig sylweddol a all fod yn anodd ei chyrraedd yn aml, bydd Crimestoppers yn cynorthwyo ac yn cynghori pob arweinydd ymyrraeth ar y ffordd orau o gysylltu â'r cymunedau hyn i sicrhau cynrychiolaeth deg i bob preswylydd.

Performance in Education - Step in/ Speak up.

Mae Performance in Education yn cynnal gweithdai drama mewn ysgolion i atal/mynd i'r afael â throseddau trais yn erbyn menywod a merched a dylanwadu ar agweddau/ymddygiadau cadarnhaol ymhlith pobl ifanc.

Cafodd 28 o ysgolion weithdai yn 2023/2024. Cyflwynwyd cyfanswm o 45 o sioeau a 21 o weithdai, gan gyrraedd cyfanswm o tua 6,000+ o ddisgyblion. Mae'r hyfforddiant wedi cael derbyniad da gan ddisgyblion ac addysgwyr fel ei gilydd.

Cynhaliwyd gwerthusiad gyda sampl o'r myfyrwyr a fynychodd y perfformiadau.

- Roedd 78% yn deall ystyr trais rhywiol yn erbyn menywod a merched yn llwyr, o'i gymharu â 41% cyn y digwyddiad.
- Roedd 60% yn teimlo'n gwbl hyderus y byddent yn rhoi gwybod am ddigwyddiad o drais rhywiol pe byddent yn dyst, o'i gymharu â 45% cyn y digwyddiad.
- Roedd 83% yn teimlo'n gwbl hyderus neu'n hyderus i raddau helaeth y byddent yn gallu ymyrryd yn ddiogel pe byddent yn gweld digwyddiad o drais rhywiol, o'i gymharu â 50% cyn y digwyddiad.

Cynhaliwyd gwerthusiad gyda'r oedolion a fynychodd y perfformiadau.

- Roedd 100% o oedolion yn teimlo bod y cyflwyniad yn ddefnyddiol.
- Roedd 122 allan o'r 137 o ymatebion i'r arolwg o'r farn y byddai'r cyflwyniad yn eu helpu i drafod trais yn erbyn menywod a merched gyda'u myfyrwyr.

- Roedd 125 o'r farn y byddai'r cyflwyniad yn eu helpu i drafod sut i ymyrryd yn ddiogel.
- Roedd 118 o'r farn y byddai'r cyflwyniad yn eu helpu i drafod y cyfrifoldeb sydd gan bawb i adrodd am drais a'i herio.
- Roedd 99% o'r farn bod y cyflwyniad wedi annog eu myfyrwyr i ystyried effeithiau a chanlyniadau trais rhywiol.
- Roedd 100% o'r farn bod y cyflwyniad wedi'i anelu at y lefel gywir ar gyfer eu myfyrwyr.
- Byddai 100% o athrawon yn argymell y gweithgaredd hwn i ysgolion a cholegau eraill.

Adborth y mynychwyr:

*“Yn hollol. Mae'n grymuso pobl ifanc i weithredu mewn ffordd ddiogel. Mae hefyd yn tynnu sylw at y ffaith ei fod*

*yn digwydd ar garreg eu drws a sut i ddelio/ymateb i sefyllfaoedd fel hyn.”*

*– Athro, Ysgol Bro Dinefwr*

*“Mae wedi bod yn addysgiadol ac yn ddefnyddiol iawn i ddisgyblion weld effaith bod yn wylwyr. Byddwn*

*i’n ei argymell i ysgolion eraill 100%.”*

*– Athro, Ysgol Aberdaugleddau*

*“Roedd y siaradwyr/perfformwyr yn ardderchog. Roedd cael arddangosiad/‘digwyddiad ffug’ yn gweithio’n dda ac*

*roedd cyflwyniad y gweithdy yn glir ac yn addysgiadol. Diolch yn fawr!”*

*– Athro, Ysgol Uwchradd Redhill*

*Ysgol Uwchradd y Frenhines Elisabeth (Blwyddyn 9)*

*“Addysgiadol ac ymgysylltiol iawn.”*

*“Ffordd mor wych o bortreadu pwnc mor anodd.”*

*“Yn hollol! Mae rhoi gwybod iddyn nhw’n gynnar yn allweddol i newid rhai o’u hagweddau.”*

*Ysgol Gyfun Aberaeron (Blwyddyn 9-13 CYMRAEG)*

*“Dod a'r problemau yn fyw i'r disgyblion.”*

*Ysgol Bro Teifi (Blwyddyn 9-10)*

*“Ardderchog.”*

*Ysgol Maes y Gwendraeth (Blwyddyn 9 a Blwyddyn 12)*

*"Perfformiad arbennig - Actorion gwych. Negeseuon clir ac effeithiol. Diolch o galon."*

*"Wedi mwynhau - Diolch."*

*Ysgol Harri Tudur (Blwyddyn 10-11)*

*"Cyflwyniad gwych. Mae angen i bob myfyriwr wybod am hyn. Roedd y tîm yn wych ac yn amyneddgar."*

## Dyletswydd Trais Difrifol

Mae'r Ddyletswydd Trais Difrifol yn gosod dyletswydd ar awdurdodau penodedig i gydweithio i atal a lleihau trais difrifol. Dechreuodd y ddyletswydd ar 31 Ionawr 2023.

Darparodd y Swyddfa Gartref gyllid grant i gyflawni'r ddyletswydd ac i gefnogi strategaethau lleihau trais difrifol. Dyfarnwyd cyllid grant o 31 Ionawr 2023 i 31 Mawrth 2025.

Yn ystod 2023/2024, bu'r cyllid yn gymorth i dalu costau adnoddau dadansoddol i greu asesiad anghenion strategol ar gyfer trais difrifol yn ardal Dyfed-Powys.

Cytunodd Heddlu Dyfed-Powys i fabwysiadu diffiniad Sefydliad Iechyd y Byd o drais:

***"Trais yw'r defnydd bwriadol o rym neu bŵer corfforol, a gaiff ei fygwth neu ei gyflawni arno'i hun, unigolyn arall neu yn erbyn cymuned sy'n arwain at anaf, marwolaeth, niwed seicolegol, diffyg datblygiad neu amddifadedd neu sydd â thebygolrwydd uchel o arwain ato."***


**<u>Cyflawni</u>**

Cyfarfu partneriaid mewn gweithdy ym mis Ionawr 2024 i drafod yr asesiad anghenion strategol a datblygu cynllun gweithredu. Nodwyd y themâu canlynol.



Nododd yr asesiad anghenion strategol y canlynol:

- Mae troseddau treisgar wedi bod yn cynyddu ers sawl blwyddyn.
- Mae poblogaethau dros dro yn yr haf yn effeithio ar y cyfraddau, gan wyro'r ffigurau i ddangos bod gan Sir Benfro a Cheredigion y cyfraddau uchaf. Bydd mynd i’r afael â her poblogaeth nad yw’n boblogaeth breswyl yn rhan o'r strategaeth.
- Cam-drin domestig a thrais rhywiol yw'r troseddau mwyaf cyffredin ymhlith y troseddau trais difrifol.
- Mae cyfran uchel o ddioddefwyr o dan 25 oed.
- Mae lefel sylweddol o droseddwyr troseddau rhywiol o dan 25 oed.
- Mae dioddefwyr yn bennaf yn fenywod, yn aml yn ddioddefwyr aml-droseddau ac yn debygol iawn o dynnu'n ôl o'r system cyfiawnder troseddol.
- Mae mwyafrif y troseddwyr yn ddynion.
- Mae lefel uchel o drais a cham-drin ar-lein




**Gweithgareddau a ddarparwyd drwy gyllid Dyletswydd Trais Difrifol yn ystod 2023/2024:**

| | |
|---|---|
| **Rhaglen Gyswllt Ysgolion**  **Cymru Gyfan** | Addasodd rhaglen Gyswllt Ysgolion Cymru Gyfan ei deunyddiau cwricwlwm i gynnwys negeseuon ataliol ac addysgol ar drais difrifol. Mae hyn wedi cael ei gyflwyno i oddeutu 33,000 o bobl ifanc. |

| | |
|---|---|
| **Deunyddiau hyrwyddo ac offer dosbarthu neges INTACT** | Offer i gefnogi rhaglen ymyriadau ieuenctid INTACT a sicrhau bod y nifer mwyaf posibl o bobl ifanc sydd mewn perygl o drais difrifol yn cael y neges.<br><br>Pecynnau gwrth-sbeicio i'w dosbarthu i bobl ifanc sydd mewn perygl yn economi'r nos. |
| **Bwrdd Cynghori ar Banel Ymgysylltu âl Goroeswyr Cam-drin Domestig** | Mae'r Bartneriaeth Ranbarthol Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol wedi sefydlu panel cynghori ar ymgysylltu â goroeswyr ar gyfer Canolbarth a Gorllewin Cymru.<br><br>Mae'r panel yn dwyn ynghyd goroeswyr a lleisiau goroeswyr, ag asiantaethau statudol a darparwyr i lywio polisi ac ymarfer.<br><br>Darperir cymorth i lunio sut mae polisïau a gweithdrefnau'n cael eu datblygu a'u gyrru yn eu blaen. |
| **Gwasanaethau Cam-drin Domestig Lleol - gweithgaredd craidd** | Cyllid i ategu gweithgaredd craidd gwasanaethau sefydledig sy'n cefnogi dioddefwyr cam-drin domestig.<br><br>Mae'r gweithgaredd a gefnogir yn cynnwys gwasanaeth integredig a chyfannol, gan fynd i'r afael ag anghenion goroeswyr cam-drin domestig a'u plant o'r pwynt argyfwng trwy adferiad ac ymlaen i fywydau annibynnol. |
| **Trwyddedau LongArm** | Prynwyd trwyddedau ar gyfer timau ymchwilio i gynnal ymchwiliad cyfannol a llawn gwybodaeth i weithgarwch ar-lein sy'n gysylltiedig ag ymddygiadau trais difrifol. |

| | |
|---|---|
| Long Arm® | Mae hyn yn caniatáu nodi pob risg/ymddygiad amhriodol, gan ddarparu cyfleoedd ar gyfer cymryd camau diogelu a sicrhau bod ymchwiliadau’n datblygu heb oedi. |
| **Gweithgaredd paratoadol Tasgio a Chydlynu Amlasiantaeth Cam-drin Domestig**  | Cyllid i gyflwyno gweithgaredd Tasgio a Chydlynu Amlasiantaeth Cam-drin Domestig. Mae MATAC yn cyfeirio at y broses tasgio a chydlynu amlasiantaeth o nodi a mynd i'r afael â throseddwyr cam-drin domestig dro ar ôl tro. Mae amcanion Tasgio a Chydlynu Amlasiantaeth Cam-drin Domestig yn cynnwys diogelu oedolion/plant sydd mewn perygl a lleihau troseddu gan gyflawnwyr. |
| **Cydlynydd Stelcio Heddlu Dyfed-Powys**  | Cost adnoddau Cydlynydd Stelcio Heddlu Dyfed-Powys.<br>Mae'r Cydlynydd Stelcio yn cefnogi adnabod ac asesu risg digwyddiadau stelcio.<br>Mae’n sicrhau bod achosion yn cydymffurfio â chanllawiau cenedlaethol.<br>Mae'r cydlynydd yn monitro ymchwiliadau drwy adolygu asesiadau risg a nodi mesurau rheoli ychwanegol drwy orchmynion sifil a chymhwyso Gorchmynion Diogelu rhag Stelcio. |
| **Gweithdy Crest Advisory.** Crest | Cyllid i gynorthwyo’r gweithdy a hwyluswyd gan Crest Advisory ym mis Ionawr 2024. Cynorthwyodd hyn y bartneriaeth wrth drosi'r asesiad anghenion strategol yn gynllun gweithredu ystyrlon. |
| **Adnodd Dadansoddwr Heddlu Dyfed-Powys**  | Cost adnoddau dadansoddwr i ddatblygu a chyflawni'r asesiad o anghenion strategol a'r strategaethau cysylltiedig ar ran y bartneriaeth. |
| **Cydlynydd Trais Difrifol a Throseddau Cyfundrefnol Heddlu Dyfed-Powys**  | Cost adnoddau ar gyfer cydlynydd i hyrwyddo'r Ddyletswydd Trais Difrifol ar draws gweithgaredd trais difrifol a throseddau cyfundrefnol. |

**Camau nesaf**

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi cyflogi Cydlynydd Trais Difrifol a fydd yn arwain y bartneriaeth wrth reoli'r strategaethau/ymyriadau i'w cyflwyno/eu hariannu.

## Cyllid CARA

Dyfarnwyd cyllid o £5,117.17 gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas ag ymyrraeth CARA (rhoi rhybuddiad a cham-drin mewn perthynas) ar gyfer troseddwyr cam-drin domestig sy'n destun rhybudd amodol.

Cynorthwyodd y cyllid i dalu costau adnoddau i ategu dadansoddiad a gwerthusiad o'r galw i ddefnyddio Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys mewn perthynas ag achosion cam-drin domestig.

Mae CARA wedi'i leoli o fewn y system cyfiawnder troseddol fel ymyrraeth gynnar sy'n targedu troseddwyr cam-drin domestig sy'n bodloni meini prawf penodol i gael rhybuddiad amodol. O dan y fframwaith plismona dwy haen newydd, bydd rhaglen CARA yn cael ei defnyddio ar gyfer troseddwyr sy'n cael rhybuddiad dargyfeiriol.

- Ymyrraeth codi ymwybyddiaeth o gam-drin domestig yw CARA sy'n cynnwys dau weithdy a gynhelir bedair wythnos ar wahân.
- Mae CARA yn cefnogi troseddwyr i wneud dewisiadau ymddygiad gwell yn eu perthnasoedd.
- Nid rhaglen i droseddwyr, therapi ymddygiad gwybyddol, rheoli dicter na grŵp cymorth yw CARA.
- Mae CARA yn hyrwyddo diogelwch teulu'r troseddwr trwy wasanaeth cyswllt dioddefwyr cysylltiedig sy'n cynnig gwaith diogelu a chymorth.

Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda sefydliadau cenedlaethol sy'n arwain y gweithgaredd hwn i geisio cefnogaeth ar sut i sefydlu'r prosiect a chael canllawiau clir ynghylch rhagofynion ar gyfer atgyfeiriadau.

Mae swyddogion wedi derbyn hyfforddiant o ardaloedd heddlu sefydledig sydd eisoes yn cyflawni'r gweithgaredd hwn.

Bydd y camau nesaf yn cynnwys datblygu cynllun busnes cadarn sy'n benodol i Heddlu Dyfed-Powys, a bydd hyn yn cael ei adrodd yn ystod 2024/2025.